

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

a'r

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Ionawr 2018

Cynnwys

Rheoli fersiynau.....	3
Cyflwyniad	4
Egwyddorion cydweithredu.....	4
Meysydd cydweithredu	5
Croesgyfeirio pryderon	5
Cyfnewid gwybodaeth	6
Datrys anghydfodau	7
Hyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu	7
Atodiad A: Cyfrifoldebau a swyddogaethau	9
Atodiad B: Protocol gweithredu ar y cyd.....	11
Atodiad 1: Manylion cyswllt.....	16

Rheoli fersiynau

Rhif y fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno
1.0	Ionawr 2018

Hanes adolygiadau a chymeradwyaeth

Dyddiad	Sut y diwygiwyd y ddogfen
Ionawr 2018	Drafft f1.0 wedi'i derfynu gan Huw Jones (AGIC) ac Eva Hales (CPIG)
Ionawr 2018	Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan Kate Chamberlain (AGIC)
Ionawr 2018	Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi gan Marc Seale (CPIG)

Cyflwyniad

1. Diben y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yw amlinellu'r fframwaith ar gyfer perthynas weithio rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (CPIG).
2. Mae'r berthynas weithio rhwng AGIC a'r CPIG yn rhan o'r gwaith o gynnal system sicrwydd ar gyfer gofal iechyd sy'n hybu diogelwch cleifion a gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel ledled y Deyrnas Unedig.
3. Mae AGIC a'r CPIG yn ymroddedig i ymchwilio ffyrdd i ddatblygu gwaith partner mwy effeithiol ac effeithlon er mwyn hyrwyddo ansawdd a diogelwch o fewn eu gwahanol gylchoedd gwaith rheoleiddiol.
4. Arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru yw AGIC.
5. Y CPIG yw'r rheoleiddiwr annibynnol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer yr 16 proffesiwn a restrir isod:

Therapyddion celf	Orthoptwyr
Gwyddonwyr biofeddygol	Parafeddygon
Ciropodyddion/podiatryddion	Ffisiotherapyddion
Gwyddonwyr clinigol	Prosthetyddion/orthotyddion
Deietegwyr	Radiograffwyr
Dosbarthwyr cymhorthion clyw	Seicolegwyr ymarferwyr
Therapyddion galwedigaethol	Gweithwyr cymdeithasol (yn Lloegr)
Ymarferwyr adrannau llawfeddygol	Therapyddion lleferydd ac iaith

Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau unigol AGIC a'r CPIG yn cael eu hamlinellu yn [Atodiad A](#) y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn.

6. Nid yw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn diystyru cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol AGIC a'r CPIG, ac nid yw'n orfodol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC a'r CPIG yn ymroddedig i weithio mewn ffyrdd sy'n gyson â chynnwys y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn.

Egwyddorion cydweithredu

7. Mae AGIC a'r CPIG yn bwriadu y bydd eu perthynas weithio'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:
 - a. Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a llesiant cleifion
 - b. Parch tuag at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall
 - c. Yr angen i gynnal hyder cyhoeddus yn y ddau sefydliad

- d. Gonestrwydd a thryloywder rhwng y ddau sefydliad yn y meysydd cydweithredu hynny yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol ac sy'n cael eu hamlinellu ym mharagraff 9 y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn
 - e. Yr angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon
8. Mae AGIC a'r CPIG yn ymroddedig i ddilyn yr egwyddorion ar gyfer system reoleiddio effeithiol ar gyfer gofal iechyd fel y'i nodir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: <http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/right-touch-regulation-2015>).

Meysydd cydweithredu

9. Mae'r berthynas weithio rhwng AGIC a'r CPIG yn cynnwys cydweithredu rhwng y ddau sefydliad i gynorthwyo gyda gweithgareddau a phrosesau rheoleiddiol unigol yn y meysydd canlynol:
- croesgyfeirio pryderon sy'n dod i'r amlwg a/neu bryderon dybryd
 - rhannu gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer personau cofrestredig ar gais uniongyrchol gan y naill sefydliad neu'r llall
 - rhannu adborth ynghylch darparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol i oedolion ar gais uniongyrchol gan y naill sefydliad neu'r llall
 - rhannu gwybodaeth i lywio digwyddiadau strategol sefydliad cyfan rheolaidd, gan gynnwys uwchgynadleddau gofal iechyd ddwywaith y flwyddyn yng Nghymru
 - rhoi gwybodaeth ymlaen llaw am unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu gyhoeddiadau arfaethedig mae'n bosibl y bydd angen i'r sefydliad arall wybod amdanynt
 - prosiectau gweithio ar y cyd sy'n berthnasol i bwerau statudol pob sefydliad

Croesgyfeirio pryderon

10. Os bydd AGIC neu'r CPIG yn dod ar draws pryder y mae'n credu ei fod o fewn cylch gwaith y llall, bydd yn cyfleu'r pryder a'r wybodaeth berthnasol ar y cyfle cynharaf i swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth a enwir yn [Atodiad 1](#) trwy ddilyn y broses a amlinellir yn y protocol gweithredu ar y cyd yn [Atodiad B](#). Er budd diogelwch neu amddiffyn cleifion, ni fydd y sefydliad sy'n atgyfeirio'n aros nes y bydd ei archwiliad ei hun wedi cael ei gwblhau.
11. Yn benodol, bydd AGIC yn rhannu'r canlynol â'r CPIG neu'n eu hatgyfeirio iddo:
- a. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a wyddys am unrhyw rai o'i phersonau cofrestredig a allai gwestiynu eu haddasrwydd i ymarfer, neu am unrhyw unigolion y drwgdybir eu bod yn defnyddio teitl

gwarchoddedig (neu'n awgrymu eu bod yn aelod o un o'r proffesiynau a reoleiddir gan y CPIG) ond heb fod yn gofrestredig gyda'r CPIG

- b. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal iechyd a allai gwestiynau ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan y CPIG
- c. Unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n honni ei fod o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan y CPIG lle mae gan AGIC reswm dros gredu nad yw'r unigolyn hwnnw ar gofrestr y CPIG
- d. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol, megis methiannau difrifol mewn arweinyddiaeth broffesiynol, goruchwyliaeth, rheoli beichiau achosion, hyfforddiant, diogelu, neu unrhyw ffactorau perthnasol eraill a allai effeithio ar y gwaith cyffredinol o ddarparu gofal neu wasanaethau mewn sefydliad gofal iechyd y mae unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru gyda'r CPIG yn ymarfer ynddo

12. Yn benodol, bydd y CPIG yn atgyfeirio'r canlynol i AGIC:

- a. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a wyddys am sefydliad gofal iechyd y mae person sydd wedi'i gofrestru gyda'r CPIG yn ymarfer neu'n cael ei hyfforddi ynddo sy'n dod o dan gylch gwaith AGIC
- b. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a wyddys am sefydliad gofal iechyd sy'n dod o dan gylch gwaith AGIC mewn perthynas ag addasrwydd ei arferion goruchwyllo a/neu amgylcheddau dysgu ar gyfer myfyrwyr o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan y CPIG
- c. Gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau y mae'n eu cynnal sy'n codi pryderon ynghylch gwaith tîm gwael, arweinyddiaeth wael, problemau systemig gyda chadw cofnodion, systemau arfarnu gwael a methiannau sefydliadol cyffredinol mewn sefydliad gofal iechyd sy'n dod o dan gylch gwaith AGIC
- d. Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol a wyddys am berson cofrestredig y CPIG sy'n gweithio fel rheolwr cofrestredig AGIC mewn sefydliad gofal iechyd wedi'i gofrestru gydag AGIC a allai gwestiynu ei addasrwydd i gyflawni ei swyddogaethau yn y lleoliad hwnnw

Cyfnewid gwybodaeth

- 13. Yn aml, bydd cydweithredu rhwng AGIC a'r CPIG yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithio a chyfnewid gwybodaeth a amlinellir yn y memorandum cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gytundebau ychwanegol yn ystyried ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, Gorchymyn Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, ac unrhyw godau ymarfer, fframweithiau neu bolisiâu eraill gan AGIC a'r CPIG sy'n berthnasol i wybodaeth bersonol gyfrinachol.
- 14. Ni fydd AGIC a'r CPIG yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei derbyn oddi wrth ei gilydd ond at ddibenion cyflawni eu swyddogaethau statudol.

15. Ategir y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn gan brotocol gweithredu ar y cyd ar wahân yn [Atodiad B](#) sy'n amlinellu'r trefniadau manwl ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y ddau barti. Mae AGIC a'r CPIG yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn derbyn cais am wybodaeth sydd wedi dod gan y llall, bydd y sefydliad sy'n derbyn yn trafod y cais gyda'r sefydliad arall cyn ymateb. Fodd bynnag, perchennog y wybodaeth a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â rhyddhau gwybodaeth (y sefydliad y gofynnwyd iddo ei rhyddhau).

Concordat Cymru

16. Mae AGIC a'r CPIG yn aelodau o Fforwm Concordat Cymru, sef cytundeb rhwng cyrff sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae AGIC a'r CPIG wedi cytuno i gydweithio â'r cyrff eraill i wella gwasanaethau i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr, gan ddileu beichiau di-angen adolygiadau allanol ar staff rheng flaen.

Datrys anghydfodau

17. Fel arfer, bydd unrhyw anghydfod rhwng AGIC a'r CPIG yn cael ei ddatrys ar lefel weithio. Os nad oes modd gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd yn cael ei atgyfeirio trwy'r rhai'r sy'n gyfrifol am reoli'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn, hyd at ac yn cynnwys prif weithredwr AGIC a phrif weithredwr a chofrestrydd y CPIG, a fydd wedyn yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau canlyniad a fydd yn foddhaol i'r naill sefydliad a'r llall.

Hyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu


18. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar ddyddiad y llofnodion isod. Nid yw'n cael ei gyfyngu gan amser, a bydd yn parhau mewn grym oni bai bod angen newid yr egwyddorion a ddisgrifir ynddo neu eu bod yn peidio â bod yn berthnasol. Mae'n bosibl y bydd yr atodiadau'n cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd. Gellir adolygu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar frys ar gais y naill barti neu'r llall, ond bydd angen i'r ddau sefydliad gytuno ar unrhyw newidiadau.
19. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi swyddog arweiniol yn [Atodiad 1](#) a fydd yn gyfrifol am reoli'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn. Bydd y swyddogion arweiniol yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol ac i ganfod unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg yn y berthynas weithio rhwng y ddau sefydliad.

Llofnodion



Dr Kate Chamberlain
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: Ionawr 2018



Marc Seale
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
Cyngor Proffesiynau Iechyd a
Gofal

Dyddiad: Ionawr 2018

Atodiad A: Cyfrifoldebau a swyddogaethau

1. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (CPIG) yn cydnabod cyfrifoldebau a swyddogaethau ei gilydd, a byddant yn ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

2. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.
3. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu er mwyn diogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
 - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
 - Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007
 - Goruchwyliaeth statudol bydwragedd fel y'i hamlinellir yn Erthyglau 42 a 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001
 - Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006
 - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
4. Strwythurir gwaith AGIC i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau ar draws tri maes allweddol:
 - Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol
 - Arolygu'r GIG
 - Iechyd meddwl
5. Mae cyfuniad y gweithgareddau hyn gyda'i gilydd yn ategu tair blaenoriaeth AGIC i wneud y canlynol:
 - Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal
 - Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da
 - Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion
6. Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill fod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau a gyhoeddwyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi yn ddiymdroi.

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

7. Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (CPIG) yn rheoleiddio 16 proffesiwn:

Therapyddion celf	Orthoptwyr
Gwyddonwyr biofeddygol	Parafeddygon
Chiropodyddion/podiatryddion	Ffisiotherapyddion
Gwyddonwyr clinigol	Prosthetyddion/orthotyddion
Deietegwyr	Radiograffwyr
Dosbarthwyr cymhorthion clyw	Seicolegwyr ymarferwyr
Therapyddion galwedigaethol	Gweithwyr cymdeithasol (yn Lloegr)
Ymarferwyr adrannau llawfeddygol	Therapyddion lleferydd ac iaith

8. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r CPIG yn cael eu hamlinellu yng Ngorchymyn Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (y Gorchymyn). Mae'r Gorchymyn yn gwarchod un neu ragor o deitlau dynodedig ar gyfer pob un o'r proffesiynau perthnasol, ac mae'n rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio'r teitlau hyn fod wedi'i gofrestru gyda'r CPIG. Mae camddefnyddio teitl yn drosedd.

9. O dan y Gorchymyn, prif swyddogaethau'r CPIG yw sefydlu safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad ar gyfer aelodau o'r proffesiynau perthnasol a sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal. Mae'n gwneud hyn trwy wneud y canlynol:

- a) pennu safonau, gan gynnwys safonau medrusrwydd, safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, a safonau addysg a hyfforddiant
- b) gwella rhaglenni addysg a chymwysterau sy'n bodloni ei safonau
- c) cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd â'r cymwysterau priodol
- d) ymchwilio i gwynion am eu haddasrwydd i ymarfer a gwneud penderfyniad yn eu cylch

10. Prif amcan y CPIG wrth arfer ei swyddogaethau fydd diogelu iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau gan bersonau cofrestredig.

11. Mae gan yr CPIG ddyletswydd hefyd i gydweithredu â, ymhlith eraill, cyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, neu â rheoli'r gwaith o reoleiddio, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, rheoleiddio gwasanaethau iechyd, a darparu, goruchwylio neu reoli gwasanaethau iechyd neu addysg.

Atodiad B: Protocol gweithredu ar y cyd

Mae'r protocol hwn yn amlinellu manylion y ffordd mae AGIC a'r CPIG yn gweithio gyda'i gilydd i weithredu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

1. Sianeli cyfathrebu allweddol rhwng AGIC a'r CPIG
2. Pryd a sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu
3. Y cyfryngau a chyhoeddiadau

Dyluniwyd y protocol hwn i weithio wrth ochr, ac nid ar wahân i, brosesau cyfredol yn y ddau sefydliad a, lle bo hynny'n berthnasol, mae'n adlewyrchu'r rhain er budd staff a rheolwyr.

Bydd yr unigolion ym mhob sefydliad sy'n gyfrifol am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r protocol. Nid yw'r protocol yn cael ei gyfyngu gan amser, a bydd yn parhau mewn grym oni bai bod angen newid unrhyw adran neu ei fod yn peidio â bod yn berthnasol.

1. Sianeli cyfathrebu allweddol rhwng AGIC a'r CPIG

Mae gan AGIC a'r CPIG strwythurau gwahanol. I sicrhau bod pwynt cyswllt clir bob amser ac i gofnodi'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad yn effeithiol, dylai pob sefydliad ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

- Y CPIG yn cysylltu ag AGIC (Tîm Gwybodaeth a Datblygiad Corfforaethol): HIW.CID@gov.wales
- AGIC yn cysylltu â'r CPIG (Tîm Sicrwydd a Datblygiad): ad@hcpc-uk.org

Dylai'r cyfeiriadau e-bost gael eu defnyddio i ofyn am wybodaeth ac i atgyfeirio pryderon. Mae'r cyfeiriadau e-bost hefyd yn elfen bwysig o sut bydd y broses o gyfnewid gwybodaeth yn cael ei monitro a sut bydd canlyniadau ac effeithiolrwydd y berthynas yn cael eu gwerthuso. Os oes perthynas uniongyrchol eisoes yn bodoli rhwng AGIC a'r CPIG mewn perthynas â mater, caiff staff e-bostio ei gilydd yn uniongyrchol, ond dylent hefyd anfon copi at y cyfeiriad e-bost perthnasol.

Mae manylion cyswllt o fewn pob sefydliad ynghlwm yn [Atodiad 1](#).

2. Pryd a sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu

Bydd AGIC a'r CPIG yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd trwy weithgareddau wedi'u cynllunio a phan fydd angen ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg a materion dybryd, fel yr amlinellir isod.

2.1. Pryderon sy'n dod i'r amlwg neu bryderon dybryd

Pan fydd pryderon sy'n dod i'r amlwg neu bryderon dybryd y mae'n bosibl eu bod yn peri perygl i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, a phan ystyrir bod y pryderon hynny yn berthnasol i swyddogaethau rheoleiddiol y sefydliad arall, mae angen rhannu'r pryderon hyn yn brydlon.

Mae'r wybodaeth ar gyfer staff AGIC a'r CPIG am sut a phryd i wneud atgyfeiriad i'r sefydliad arall yn cael ei nodi yma.

Gwybodaeth ar gyfer staff AGIC ynglŷn â gwneud atgyfeiriadau i'r CPIG

Mae'r CPIG yn rheoleiddio'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol canlynol:

Therapyddion celf	Orthoptwyr
Gwyddonwyr biofeddygol	Parafeddygon
Ciropodyddion/podiatryddion	Ffisiotherapyddion
Gwyddonwyr clinigol	Prosthetyddion/orthotyddion
Deietegwyr	Radiograffwyr
Dosbarthwyr cymhorthion clyw	Seicolegwyr ymarferwyr
Therapyddion galwedigaethol	Gweithwyr cymdeithasol (yn Lloegr)
Ymarferwyr adrannau llawfeddygol	Therapyddion lleferydd ac iaith

Mae gan yr holl broffesiynau hyn o leiaf un teitl proffesiynol sy'n cael ei warchod gan y gyfraith, gan gynnwys y rhai a ddangosir uchod. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio'r teitlau fod wedi'i gofrestru gyda'r CPIG. Gellir gwirio statws cofrestrriad unigolyn trwy chwilio'r gofrestr ar wefan y CPIG: [CPIG – Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal – Y Gofrestr](#).

Pa bryderon sy'n briodol?

Unigolion nad ydynt wedi'u cofrestru – mae atgyfeirio pryder i'r CPIG yn briodol pan fyddwch yn amau bod unigolyn yn defnyddio teitl gwarchodedig (neu awgrymu ei fod yn aelod o un o'r proffesiynau) ond nad yw wedi'i gofrestru gyda'r CPIG. Mae rhagor o wybodaeth am warchod teitl ar wefan y CPIG: [CPIG – Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal – Gwarchod Teitl](#).

Unigolion sydd wedi'u cofrestru (personau cofrestredig) – mae atgyfeirio pryder i'r CPIG yn briodol pan fydd ymddygiad, perfformiad neu iechyd person cofrestredig yn codi pryderon posibl ynghylch ei addasrwydd i ymarfer. Mae person cofrestredig yn 'addas i ymarfer' pan fydd ganddo'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth am leisio pryder ynghylch person cofrestredig ar gael ar wefan y CPIG: [CPIG – Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal – Cwynion](#).

Addasrwydd amgylcheddau dysgu – mae atgyfeirio pryder i'r CPIG yn briodol pan fydd ansawdd sefydliad gofal iechyd yn cwestiynu ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan y CPIG. Mae amgylchedd yn addas ar gyfer rhaglen gymeradwy pan fydd yn bodloni gofynion ein safonau addysg a hyfforddiant. Mae rhagor o ganllawiau ynglŷn â lleisio pryder ynghylch amgylchedd dysgu ar gael ar wefan y CPIG: [CPIG – Lleisio pryder ynghylch rhaglen gymeradwy](#).

Ystyriwch y rhesymau dros atgyfeirio eich pryderon a thrafodwch nhw â'ch rheolwr neu bennaeth cangen yn gyntaf. Mae'n bwysig sefydlu'r canlynol:

- a yw camau lleol wedi cael eu cymryd

- a yw'r sefydliad neu asiantaeth gyflogi eisoes wedi ymchwilio i'r pryder neu a yw yn y broses o wneud hynny
- a yw'r sefydliad neu asiantaeth gyflogi eisoes wedi gwneud atgyfeiriad i'r CPIG

Ni ddylai camau lleol neu atgyfeiriad cyfredol atal AGIC rhag gwneud atgyfeiriad i'r CPIG. Yn aml, mae prosesau'r CPIG yn cael eu cynnal ochr yn ochr ag unrhyw gamau lleol. Pan fydd atgyfeiriad eisoes wedi cael ei wneud, gall gwybodaeth ychwanegol fod yn ddefnyddiol wrth ategu unrhyw ymchwiliad.

Cewch hefyd ofyn am gyngor gan swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth (gweler [Atodiad 1](#)).

Pan fyddwch wedi penderfynu atgyfeirio pryder i'r CPIG, dylech gwblhau ffurflen ['adrodd am bryder ynghylch addasrwydd i ymarfer'](#) a'i hanfon at swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth (gweler [Atodiad 1](#)).

Dylai'r CPIG roi adborth trwy hysbysu swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ynghylch p'un a fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd. Os bydd y CPIG yn cymryd camau, bydd yn rhoi diweddariad(au) i swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar y camau a'r canlyniad terfynol.

Gwybodaeth ar gyfer staff y CPIG ynglŷn â gwneud atgyfeiriadau i AGIC

Diben sefydliadol AGIC yw gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da; mae hyn yn cael ei gyflawni trwy reoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'n bosibl y bydd pryderon systemig ynghylch diogelwch cleifion, ansawdd gofal, neu arferion addysg a hyfforddiant yn dod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad i addasrwydd i ymarfer neu arolygiadau addysg ar gyfer personau cofrestredig neu sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech atgyfeirio pryder systemig i'r tîm gweithrediadau er mwyn iddynt ystyried ei atgyfeirio i AGIC, fe ddylech siarad â'ch rheolwr.

Cam	Gweithgaredd
1	Mae swyddogaeth y CPIG (er enghraifft, rheolaeth achosion neu banel) yn nodi mater y mae'n bosibl y bydd angen ei atgyfeirio i AGIC. Bydd y mater yn cael ei anfon ymlaen at y tîm gweithrediadau trwy'r mewnflwch Sicrwydd a Datblygiad: ad@hcpc-uk.org .
2	Bydd swyddog sicrwydd a datblygiad yn adolygu'r wybodaeth cyn gynted ag y bo modd ac yn gwneud argymhelliad i reolwr sicrwydd a datblygiad ynghylch p'un a oes angen atgyfeiriad neu beidio.
3	Os bydd y rheolwr sicrwydd a datblygiad yn penderfynu y dylid gwneud atgyfeiriad, dylai swyddog sicrwydd a datblygiad wneud

	atgyfeiriad trwy e-bost i swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth (gweler Atodiad 1).
4	Dylai AGIC roi adborth trwy hysbysu swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ynghylch p'un a fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd. Os bydd AGIC yn cymryd camau, bydd yn rhoi diweddariad(au) i swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar y camau a'r canlyniad terfynol.

Mae'r holl ddogfennau mewn perthynas â'r penderfyniadau mae'r CPIG yn eu gwneud ynglŷn ag atgyfeiriadau i AGIC yn cael eu hychwanegu at yr achos ar y system berthnasol. Dylid hefyd ychwanegu unrhyw adborth neu ddiweddariadau mae'r CPIG yn eu derbyn gan AGIC ar atgyfeiriad penodol at yr achos ar y system.

Mae'r CPIG yn cadw trywydd archwilio ar wahân ar gyfer yr atgyfeiriadau mae'n eu gwneud i AGIC a chanlyniad yr atgyfeiriadau hynny. O ganlyniad, mae'n gallu adrodd ar yr atgyfeiriadau mae'n eu gwneud. Trafodir yr adroddiadau hyn fel sy'n briodol yn fforymau priodol y CPIG.

2.2 Rhannu gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer

Mae'r CPIG yn ymroddedig i rannu'r wybodaeth mae'n ei chyhoeddi am addasrwydd i ymarfer personau cofrestredig ag AGIC. Cedwir gwybodaeth am iechyd person cofrestredig yn gyfrinachol ar bob adeg.

Mae'r CPIG yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan allanol am wrandawiadau sydd ar y gweill, gan gynnwys manylion pryderon (<https://www.hcpts-uk.org/hearings/upcoming>) ac yn rhyddhau amserlen o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer i'r cyfryngau (<https://www.hcpts-uk.org/hearings/mediareleases>).

Yn ogystal, mae'r CPIG yn cyhoeddi gwybodaeth am y sancsiynau mae wedi'u gosod pan nad yw ei bersonau cofrestredig yn addas i ymarfer (<https://www.hcpts-uk.org/hearings/recentdecisions>).

Mae'r CPIG yn cytuno i rannu gwybodaeth fanylach pan ofynnir amdani gan AGIC. Dylid anfon ceisiadau am wybodaeth at swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn y CPIG.

Mae AGIC yn cyhoeddi adroddiadau ar ei chanfyddiadau yn ystod ymweliadau arolygu'n rheolaidd. Mae AGIC yn cytuno i rannu gwybodaeth fanylach i gefnogi'r canfyddiadau hynny pan ofynnir amdani gan y CPIG. Dylid anfon ceisiadau am wybodaeth at swyddog arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn AGIC.

2.3 Uwchgynadleddau gofal iechyd AGIC

Ddwywaith y flwyddyn, mae AGIC yn cynnal uwchgynadleddau gofal iechyd i alluogi cyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a gwella i rannu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan GIG Cymru.

Cyn pob uwchgynhadledd, bydd AGIC yn cysylltu â'r CPIG i weld a oes ganddo unrhyw wybodaeth berthnasol am sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Os oes, bydd y CPIG yn darparu'r wybodaeth cyn y cyfarfod pan fo hynny'n bosibl.

2.4 Tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau seneddol: llywodraeth ganolog

Bydd AGIC a'r CPIG, pan fydd yn briodol (ac yn ddarostyngedig i'r rheolau safonol ar gyfer gwrandawiadau ac ymrwymadau seneddol), yn rhannu â'i gilydd manylion tystiolaeth a roddir i unrhyw bwyllgorau seneddol mewn perthynas â'r gwaith o weithredu'r gyfundrefn reoleiddiol neu arfer eu swyddogaethau.

2.5 Gweithio ar y cyd

Mae'n bosibl y bydd AGIC a'r CPIG, trwy gytundeb, yn ymgymryd â gwaith rheoleiddio neu strategol ar y cyd, mewn perthynas â phwerau statudol ei gilydd. Os a phan fydd AGIC a'r CPIG yn penderfynu ymgymryd â gwaith ar y cyd, bydd datganiad gweithio ar y cyd yn cael ei ddatblygu sy'n amlinellu'r manylion a'r trefniadau penodol ar gyfer y gwaith hwnnw. Trwy gydol gwaith o'r fath, bydd AGIC a'r CPIG yn cadw ac yn arfer eu pwerau statudol eu hunain. Gallai'r gwaith hwn gynnwys:

- cydadolygiadau o wybodaeth am sefydliad gofal iechyd
- ymweliadau safle â sefydliad gofal iechyd
- cydgynhyrchu dogfennau ac adroddiadau a chydlynu'r gwaith o gynllunio unrhyw gamau dilynol i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion
- cydgynhyrchu ymchwil ac adroddiadau dadansoddi
- cydymatebion cyhoeddus i ddatblygiadau polisi allanol
- cyfarwyddyd neu ddatganiadau sefyllfa ar y cyd

3 Y cyfryngau a chyhoeddiadau

Bydd AGIC a'r CPIG yn ceisio rhoi rhybudd digonol a digon o wybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau i'r cyhoedd sydd yn yr arfaeth y mae'n bosibl y bydd angen i'r llall wybod amdanynt.

Bydd pob sefydliad yn cynnwys y llall cyn gynted ag y bo modd yn y broses o gynllunio cyhoeddiadau arfaethedig, gan gynnwys rhannu cynigion a chyhoeddiadau drafft y mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar y ddau reoleiddiwr.

Mae AGIC a'r CPIG yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd a fyddai'n arwain at y dogfennau hynny'n cael eu gwneud yn gyhoeddus cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Atodiad 1: Manylion cyswllt

Manylion sefydliadol:

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Parc Busnes Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ Ffôn: 0300 062 8163	Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal Park House 184 Kennington Park Road Llundain SE11 4BU Ffôn: 0845 300 6184
---	---

Bydd pwyntiau cyswllt penodol rhwng AGIC a'r CPIG fel a ganlyn:

Swyddogion arweiniol y memorandwm cyd-ddealltwriaeth

AGIC	CPIG
Huw Jones Dadansoddwr Gwybodaeth Gorfforaethol E-bost: huw.jones@wales.gsi.gov.uk Ffôn: 0300 0255 996	Eva Hales Rheolwr Sicrwydd a Datblygiad E-bost: eva.hales@hcpc-uk.org Ffôn: 0207 840 9742

Cyfryngau:

AGIC	CPIG
Natalie Jones Y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu E-bost: HIWcomms@wales.gsi.gov.uk Ffôn: 0300 062 8382	Grant Imlach Rheolwr Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus E-bost: grant.imlach@hcpc-uk.org Ffôn: 0207 840 9784

Datrys anghydfodau (dylid dilyn polisiau uwchgyfeirio mewnol cyn atgyfeirio i'r prif weithredwyr):

AGIC	CPIG
Dr Kate Chamberlain Prif Weithredwr E-bost: kate.chamberlain@wales.gsi.gov.uk	Marc Seale Prif Weithredwr E-bost: marc.seale@hcpc-uk.org